Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gweithio gyda'n gilydd ar ymchwil Llywodraeth Cymru

## Beth wnaethon ni ei ddysgu



Mehefin 2026

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Cydgynhyrchu yn Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth - ymchwil gwersi a ddysgwyd.**



Efallai y byddwch chi eisiau help i'w ddarllen. Gallwch ofyn i rywun rydych chi'n eu hadnabod i'ch helpu.



Gall geiriau mewn **glas trwm** fod yn anodd eu deall. Gallwch chi wirio beth maen nhw'n ei olygu ar **dudalen 26**.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae'n golygu **Llywodraeth Cymru.** I gael gwybod mwy, cysylltwch â:

**Gwefan:** [www.llyw.cymru/yr-unedau-tystiolaeth-cydraddoldeb-hil-ac-anabledd](www.llyw.cymru/yr-unedau-tystiolaeth-cydraddoldeb-hil-ac-anabledd)

**E-bost:** [YrUnedTystiolaethCydraddoldeb@llyw.cymru](mailto:YrUnedTystiolaethCydraddoldeb@llyw.cymru)

# Cynnwys


Am yr adroddiad hwn .................... 4

Ein nodau .................... 7

Beth wnaethon ni ei ddysgu am wneud cydgynhyrchu .................... 10

Beth wnaethon ni ddysgu .................... 24

Geiriau anodd .................... 26



OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54734,



ISBN digidol 978-1-83745-664-2


Rydyn ni'n croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg.

# Am yr adroddiad hwn




Yn 2023 dechreuon ni weithio gyda phobl anabl i ddarganfod mwy am y pethau hyn:



1. Dechrau Canolfan Genedlaethol ar gyfer Byw'n Annibynnol yng Nghymru.




2. Gwella sut rydyn ni'n cefnogi cyflogwyr i gyflogi pobl anabl.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru wnaeth ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Gallwch chi ddarllen adroddiadau Hawdd eu Deall am y gwaith hwn ar-lein:




1. Hawdd ei Ddeall: allwn ni greu Canolfan Genedlaethol ar gyfer Byw'n Annibynnol yng Nghymru?




2. Hawdd ei Ddeall: edrych ar ffyrdd o wella cynllun sy'n cefnogi pobl anabl mewn gwaith



Fel rhan o'r gwaith **ymchwil** hwn, roedden ni eisiau profi sut gallwn ni defnyddio **cydgynhyrchu**.



Mae **ymchwil** yn golygu darganfod pethau.




Mae **cydgynhyrchu** yn golygu gweithio gyda'n gilydd fel partneriaid cyfartal. Mae pawb yn cael eu cynnwys ac yn cael llais gyfartal.



Gwnaethon ni sefydlu tîm **ymchwil** a oedd yn cynnwys pobl anabl.



Cytunodd y tîm i weithio gyda'i gilydd ar yr **ymchwil** fel partneriaid cyfartal.




Mae'r adroddiad hwn yn sôn am y pethau gwnaethon ni eu dysgu o **gydgynhyrchu ymchwil**.

# Ein nodau

Roedden ni eisiau dysgu am y pethau hyn:



- Defnyddio **cydgynhyrchu** ar gyfer ymchwil Llywodraeth Cymru.




- Defnyddio'r **Model Cymdeithasol o Anabledd**.





Mae'r **Model Cymdeithasol o Anabledd** yn dweud mai rhwystrau yn y byd o'u cwmpas sy'n gwneud pobl yn anabl. Nid eu salwch, eu hanaf neu eu cyflwr.

Dyma rai pethau all fod yn rhwystrau:

- Adeiladau heb lifft neu ramp.
- Gwybodaeth sy'n anodd ei deall.
- Peidio â rhoi'r cymorth cywir i bobl.



Mae defnyddio'r **Model Cymdeithasol o Anabledd** yn golygu newid pethau er mwyn cael gwared ar rwystrau.



Er enghraifft, gwnaethon ni ddefnyddio gwybodaeth Hawdd ei Deall i wneud yr **ymchwil** yn haws i bobl ei deall.



Gwnaethon ni gael cyfarfodydd mewn adeiladau hawdd i bobl fynd i mewn iddyn nhw a hawdd iddyn nhw symud o gwmpas y tu mewn.




Gwnaethon ni roi amser a chymorth i bobl rannu eu barn.



Gwnaeth hyn helpu pobl anabl yn y tîm **ymchwil** i gymryd rhan.

**Hefyd, roedden ni eisiau dysgu mwy am:**



- Os bydd hi'n bosibl i ni weithio gyda'n gilydd i wneud **ymchwil.**



- Sut i ddefnyddio **cydgynhyrchu** yn y dyfodol.



- Beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio wrth weithio gydag eraill.



- Sut mae gweithio gyda phobl anabl yn helpu **ymchwil**.

# Beth wnaethon ni ei ddysgu am wneud cydgynhyrchu

## Cynllunio ar gyfer cydgynhyrchu



Does yna ddim 1 ffordd glir o weithio wrth **gydgynhyrchu**. Mae cydgynhyrchu yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl.



Roedd yn bwysig bod pawb yn cytuno beth oedd **cydgynhyrchu** yn ei olygu i'r gwaith hwn.




Mae'n rhaid i bobl gael yr hyfforddiant a bod ganddyn nhw'r sgiliau iawn i **gydgynhyrchu** yn dda.




Nid oedd pobl yn cael eu talu gydag arian am fod yn rhan o'r prosiect hwn.



Yn lle hynny roedden nhw'n cael cyfleoedd dysgu.




Gwnaeth hyn weithio'n dda i rai pobl, ond efallai y byddai'n stopio pobl eraill rhag cymryd rhan yn y dyfodol.



Mae angen i dimau ymchwil gymryd amser i drefnu a chytuno ar sut i dalu pobl.




Mae gweithio gyda'n gilydd yn cymryd mwy o amser, ymdrech ac arian. Roedd hi'n anodd cynllunio ar gyfer hyn.



Mae angen i brosiectau yn y dyfodol roi mwy o amser ar gyfer **cydgynhyrchu**.



A hefyd roi mwy o amser ar y cychwyn i drefnu a chytuno ar beth fydd yr **ymchwil** yn ei ddarganfod.

## Llesiant a ffydd yn ei gilydd



Weithiau gwnaeth yr ymchwil effeithio ar lesiant pobl.



Gwnaethon ni ofyn i bobl sut roedden nhw'n teimlo ym mhob cyfarfod. A gofyn os oedd angen help arnyn nhw. Rhaid i brosiectau yn y dyfodol gefnogi llesiant pobl.




Gwnaeth pethau newid yn fawr. A weithiau gwnaethon nhw newid yn gyflym. Mae angen i ni roi mwy o amser ar gyfer pan fydd pethau'n newid.



A bod yn glir am sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud. Mae hyn yn helpu pobl yn y grŵp i fod â ffydd yn ei gilydd.

## Beth wnaethon ni ddysgu am berthnasoedd a gwneud penderfyniadau



Mae perthynas dda yn bwysig iawn ar gyfer **cydgynhyrchu**.



Mae'n cymryd amser i adeiladu ffydd yn ein gilydd, yn enwedig ar ddechrau prosiect **cydgynhyrchu**.



Roedd yn ddefnyddiol cymryd amser i ddeall beth oedd pobl eisiau ei wneud yn y tîm **ymchwil**. A beth oedden nhw eisiau ei ddysgu.



Roedd rhai pobl yn gallu gwneud mwy o benderfyniadau nag eraill. Roedd hyn yn achosi rhai problemau.



Roedd rhai pobl yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys, ond doedd rhai ddim yn teimlo hynny gymaint.



Dylai prosiectau yn y dyfodol edrych ar hyn o’r cychwyn cyntaf. Fel bod pawb yn deall pwy sy’n gwneud penderfyniadau a pham.

## Cymryd rhan mewn gwahanol gamau ymchwil



Roedd yr **ymchwil** i fod i gynnwys pawb yn gyfartal. Ond newidiodd hyn dros amser.



Weithiau roedd pawb yn y tîm yn gweithio'n agos gyda'i gilydd. Ar adegau eraill, roedd llai o bobl yn cymryd rhan.

Roedd hyn oherwydd:



- Bod gan rai aelodau o'r tîm lai o amser wrth i'r **ymchwil** fynd yn ei blaen.



- Roedd profiadau pobl yn helpu i wella'r **ymchwil**.



- Nid oedd pawb yn gallu cymryd rhan yn yr un ffordd. Roedd gan rai pobl fwy o sgiliau neu brofiad nag eraill.



- **Ymchwilwyr** y Llywodraeth wnaeth rai o'r penderfyniadau olaf.




Roedd hyn yn golygu nad oedd pawb yn rhan o wneud penderfyniadau am yr adroddiad olaf.




Roedd hyn yn gwneud i bobl feddwl am bwy allai wneud penderfyniadau am yr ymchwil a'r canlyniadau.



Mae gweithio gyda phobl anabl wedi gwella'r **ymchwil** a'i wneud e'n fwy defnyddiol.




Dylai prosiectau yn y dyfodol gynnwys pobl anabl a phobl o wahanol gefndiroedd.

## Beth wnaethon ni ddysgu am y Model Cymdeithasol o Anabledd



Gwnaethon ni weithio i wneud yn siŵr bod pawb yn gallu cymryd rhan, dim ots beth oedd eu hanghenion.




Mae cael gwared ar rwystrau er mwyn i pawb allu cymryd rhan yn cymryd mwy o amser. Ond roedd yn bwysig fel y gallai pawb gymryd rhan yn iawn.





Gwnaethon ni ofyn i aelodau'r tîm am eu hanghenion drwy gydol y prosiect.



Roedd hyn yn gweithio'n dda a dywedodd pobl ei fod yn well na phrosiectau eraill roedden nhw wedi bod yn rhan ohonynt.



Gwnaethon ni ddysgu mwy oherwydd bod gwahanol bobl wedi gallu cymryd rhan.




Dylai prosiectau yn y dyfodol ddefnyddio’r **Model Cymdeithasol o Anabledd** yn fwy.

## Beth ddysgodd pobl wrth gymryd rhan mewn cydgynhyrchu




Dysgodd pobl sgiliau newydd. Gwnaethon nhw ddysgu gan ei gilydd a gweithio trwy bethau anodd gyda'i gilydd.



Gwnaeth rhai pobl ddysgu mwy am hawliau pobl anabl yng Nghymru.




Gwnaeth rhai pobl ddysgu am sgiliau **ymchwil**. A sut mae **ymchwil** y llywodraeth yn gweithio.




Dysgodd rhai pobl am y **Model Cymdeithasol o Anabledd**.



Roedd rhai pobl yn teimlo'n fwy hyderus wrth iddyn nhw ddysgu llawer o weithio gydag eraill.



Gall canlyniadau'r gwaith hwn helpu i wella **ymchwil** y llywodraeth yng Nghymru.



Dylai pobl fod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.



Bydd canlyniadau'r prosiect **ymchwil** hwn yn cael eu defnyddio yng nghynllun yr **Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd**.



Mae'r **Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd** yn gwella gwybodaeth am bobl yng Nghymru.



I wneud yn siŵr bod yr wybodaeth hon:

- Yn hawdd i ddod o hyd iddi.
- Yn hawdd ei defnyddio.
- O ansawdd da.
- Yn fanwl ac yn hawdd ei deall.



Mae hyn yn ein helpu ni i ddeall y gwahaniaethau ym mhrofiadau pobl ar draws Cymru yn well.



Bydd yn helpu i wneud **ymchwil** yn haws i fwy o bobl gymryd rhan ynddi.

# Beth wnaethon ni ddysgu



Mae gweithio ar y cyd â phobl anabl yn ffordd fwy teg o wneud gwaith **ymchwil**.



Dylai pobl gael eu cynnwys mewn penderfyniadau ac ymchwil am eu bywydau eu hunain.

Mae yna wahanol ffyrdd o gynnwys pobl, fel:



- Dweud wrth bobl am y pethau rydyn ni'n eu gwneud.



- Gofyn i bobl roi gwybod beth maen nhw'n ei feddwl.



- **Cydgynhyrchu**.



Yn y prosiect hwn, gwnaethon ni geisio defnyddio **cydgynhyrchu** gymaint â phosibl.



Weithiau roedd y gair **cydgynhyrchu** yn gwneud i bobl feddwl y byddai pawb yn gwneud pob penderfyniad gyda'i gilydd. Ond doedd hynny ddim bob amser yn bosibl.




Dylai prosiectau **ymchwil** yn y dyfodol fod yn gliriach o'r dechrau am sut y bydd pobl yn cymryd rhan ar bob cam.

# Geiriau anodd

## Cydgynhyrchu

Mae cydgynhyrchu yn golygu gweithio gyda'n gilydd fel partneriaid cyfartal. Mae pawb yn cael eu cynnwys ac yn cael llais gyfartal.

## Model Cymdeithasol o Anabledd

Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn dweud mai rhwystrau yn y byd o'u cwmpas sy'n gwneud pobl yn anabl. Nid eu salwch, eu hanaf neu eu cyflwr.

Dyma rai pethau sy'n gallu bod yn rhwystrau:

- Adeiladau heb lifft neu ramp.
- Gwybodaeth sy'n anodd ei deall.
- Peidio â rhoi'r cymorth cywir i bobl.

## Ymchwil

Mae ymchwil yn golygu darganfod pethau.

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Hawdd ei Ddeall Cymru a wnaeth y ddogfen hon. Cliciwch yma i ddweud wrthym beth ydych chi'n ei feddwl.

Photosymbols®
Publisher Licence 403527247